



PLANT YNG NGHYMURU
CHILDREN IN WALES

SWYDDOG DATBLYGU CYFRANOGIAD

Pecyn Ymgeisio

childreninwales.org.uk

Cyflwyniad

Teitl Swydd:	Swyddog Datblygu - Cyfranogiad
Yn Adrodd i'r:	Uwch Swyddog Datblygu - Cyfranogiad
Lleoliad:	Caerdydd – gweithio'n ystwyth gartref neu yn y swyddfa
Oriau Gwaith:	21 awr yr wythnos

Lluniwyd yr wybodaeth amgaeedig i roi darlun llawnach i chi o ofynion y swydd a gwybodaeth am Plant yng Nghymru.

Lluniwyd y disgrifiad swydd i grynhoi'n eglur gwmpas a chyfrifoldebau'r swydd, a dylid ei ddarllen yn drylwyr. Pwrpas y fanyleb person yw nodi, mor fanwl â phosibl, yr isafswm o ran sgiliau, profiad a gwybodaeth sy'n ofynnol gan ymgeiswyr i gyflawni gofynion y swydd. **Mae'n hanfodol eich bod yn darllen hyn yn ofalus ac yn rhoi sylw i'r meini prawf a geir yn y fanyleb person yn eich cais am y swydd.** Bydd methu â gwneud hynny yn lleihau'n sylweddol eich cyfle o gael eich dewis ar gyfer cyfweliad.

Bydd y broses ymgeisio yn cau am **ganol dydd ar 20 Ebrill 2022.**

Bydd ein panel recriwtio yn llunio rhestr fer o ymgeiswyr i'w cyfweld. Ni fyddant yn derbyn eich manylion cyswllt nac unrhyw wybodaeth cyfle cyfartal. Bydd yr wybodaeth a gyflwynir gan ymgeiswyr aflwyddiannus yn cael ei chadw'n ddiogel am gyfnod o 1 flwyddyn, ac yna'n cael ei dinistrio'n gyfrinachol.

Bydd gofyn bod yr ymgeisydd llwyddiannus ar gyfer y swydd hon yn cwblhau gwiriad Manwl gan y DBS (Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd), a chedwir yr holl wybodaeth a ddarperir yn ystod y broses ymgeisio fel rhan o'ch ffeil cyflogai.

I arbed costau, ni allwn gydnabod eich cais ond trwy e-bost.

Os llwyddwch i symud ymlaen i gyfweliad, cewch eich hysbysu trwy'r cyfeiriad e-bost a roddwyd i ni erbyn **5 Mai 2022.**

Gwybodaeth Bellach

Contract: Cyfnod penodol – 12 mis

Oriau Gwaith: 21 awr yr wythnos

Graddfa Gyflog: £32,878 pro rata

Gwyliau Blynyddol: 25 diwrnod y flwyddyn pro rata

Dull Talu: Telir cyflogau'n uniongyrchol i'r cyfrif banc a enwebwyd gan yr aelod staff ar y 15fed o bob mis

Pensiwn: Caiff cyflogeion Plant yng Nghymru eu cofrestru'n awtomatig ar Gynllun Pensiwn y Gweithle, ond gallwch ddewis optio allan.

Lleoliad gwaith: Plant yng Nghymru, 21 Plas Windsor, Caerdydd CF10 3BY

Disgrifiad Swydd

Teitl y Swydd:	Swyddog Datblygu - Cyfranogiad
Yn Adrodd i'r:	Uwch Swyddog Datblygu - Cyfranogiad
Lleoliad:	Caerdydd – trefniadau gweithio ystwyth gartref neu yn y swyddfa
Oriau Gwaith:	21 awr yr wythnos

Prif ddiben y rôl:

Bydd y Swyddog Datblygu - Cyfranogiad yn gyfrifol am arwain prosiectau a fydd o gymorth i ddatblygu a gweithredu gwaith addysg cyhoeddus a pholisi Plant yng Nghymru, gan gynnwys Cymru Ifanc - Young Wales, trwy waith uniongyrchol gydag amrywiaeth eang o blant a phobl ifanc a'r ymarferwyr a'r sefydliadau sy'n eu cefnogi, sef:

Rhoi cyngor, canllawiau a hyfforddiant i sefydliadau a phartneriaid er mwyn iddynt fedru gwreiddio dull gweithredu seiliedig ar gyfranogiad a hawliau plant yn effeithiol.

Llywio a galluogi plant a phobl ifanc i gyfranogi'n effeithiol, a sicrhau bod Gweinidogion a llunwyr polisi yn clywed eu barn trwy Cymru Ifanc a gweithgaredd cyfranogi arall, er mwyn llywio datblygiad polisi ac ymarfer ochr yn ochr â grymuso plant a phobl ifanc.

Cefnogi gweithrediad Erthygl 12 o CCUHP trwy gasglu llais y plentyn i lywio datblygiad polisi.

Prif ddyletswyddau a chyfrifoldebau:

1. Cymru Ifanc - Young Wales

- Arwain y gwaith o gynorthwyo sefydliadau partner i wreiddio dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant yn eu cyfranogiad â phlant a phobl ifanc.
- Cynnal ymgynghoriadau â phlant a phobl ifanc, gan ddadansoddi eu hymatebion a drafftio adroddiadau ar gyfer amrywiaeth o gynulleidfaoedd.
- Darparu cyfleoedd i blant a phobl ifanc gyfranogi'n effeithiol yn holl bortffolios datganoledig Gweinidogion Cymru.
- Cynllunio a chydlynu cyfarfodydd a digwyddiadau i bobl ifanc ledled Cymru.
- Ymgysylltu â nifer fawr o blant a phobl ifanc o bobl rhan o Gymru a'u cyrraedd fel rhan o weithgaredd ymgynghori Cymru Ifanc – gan gydnabod amrywiaeth a chymhlethdod y boblogaeth plant/pobl ifanc ar draws Cymru gyfan.
- Ymchwilio a darparu cyfleoedd i bobl ifanc feithrin eu gallu, er mwyn eu galluogi i ddatblygu eu sgiliau a'u gwybodaeth, a dod yn arweinwyr cymheiriaid effeithiol.
- Datblygu dulliau o sicrhau bod plant a phobl ifanc yn gallu cyfranogi yn natblygiad y gwaith a chyfrannu ato.
- Cynnal, diweddarau a hyrwyddo'r wefan a'r cyfryngau cymdeithasol fel offeryn ar gyfer recriwtio plant a phobl ifanc a'r rhai sy'n eu cefnogi, dathlu cyflawniadau a lledaenu enghreifftiau o arfer da wrth gefnogi cyfranogiad effeithiol plant a phobl ifanc.

2. Datblygu Polisi

- Dadansoddi gwybodaeth ymchwil, data a pholisi a chynhyrchu briffiadau ar gyfer ystod o gynulleidfaoedd mewnol ac allanol.
- Cyfrannu at ymatebion polisi Plant yng Nghymru i ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig, ac unrhyw faterion polisi eraill, yn unol â strategaeth a nodau ein sefydliad.
- Datblygu a gweithredu dulliau priodol o nodi materion addysg polisi a chyhoeddus i'w datblygu, ar y cyd â chydweithwyr yn Plant yng Nghymru.

3. Polisi ac Ymarfer

- Datblygu partneriaethau a pherthynas waith dda gyda gweithwyr proffesiynol ar draws meysydd iechyd, addysg, gofal cymdeithasol a'r trydydd sector, er mwyn gweithio ar y cyd i hyrwyddo materion a phryderon sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc.
- Datblygu'r rhwydweithiau presennol yng Nghymru sy'n canolbwyntio ar y maes gwaith penodol.

4. Trefnu a Rheoli

- Gyda'r Cyfarwyddwr Datblygu a Chyflawni Busnes a chydweithwyr, cyfrannu at weithredu'r broses gynllunio a chyflawni'n effeithiol yn Plant yng Nghymru.
- Cefnogi'r gwaith o gyflawni, monitro a gwerthuso cynlluniau ariannu cyfredol.
- Cynorthwyo Plant yng Nghymru i gyflwyno hyfforddiant galwedigaethol.
- Cyflawni amcanion a rhaglenni gwaith cytunedig at safonau Plant yng Nghymru.
- Gwneud eich gwaith gweinyddol eich hun.
- Ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau eraill rhesymol ar gais y rheolwr perthnasol yn Plant yng Nghymru.

Nid yw'r rhestr hon yn hollgynhwysol gan y gall fod dyletswyddau a chyfrifoldebau eraill y mae Plant yng Nghymru yn gofyn bod deilydd y swydd yn eu cyflawni o bryd i'w gilydd, wrth gyfrannu at gyflawni ei weithgareddau.

Manyleb Person

Cyffredinol

Mae swydd Swyddog Datblygu yn gyfle cyffrous i fod ar flaen y gad o ran datblygu cyfranogiad plant a phobl ifanc yng Nghymru. Bydd angen i chi gydweithio'n agos â chydweithwyr yn y sefydliad, a chyda phartneriaid mewn aelod-sefydliadau a rhanddeiliaid allanol. Bydd deilydd y swydd yn canolbwyntio ar gynorthwyo sefydliadau partner i'w galluogi i wreiddio dulliau gweithredu seiliedig ar hawliau plant a chyfranogiad. At ei gilydd, bydd angen i ddeilydd y swydd fedru gweithio'n hyblyg a datblygu perthnasoedd gwaith newydd a rhai sydd eisoes yn bodoli er mwyn cyflawni rhaglen waith heriol.

Mae'r rôl hon yn gofyn bod deilydd y swydd yn gweithio gyda nifer o sefydliadau partner a lleoliadau ledled Cymru, felly byddai trwydded yrru ddilys a bod â cherbyd at eich defnydd yn ddymunol ar gyfer deilydd y swydd.

Gofynion Allweddol - Hanfodol

1. Wedi cymhwyso at lefel raddedig, gydag o leiaf 2 flynedd o brofiad o weithio gyda phlant a phobl ifanc mewn lleoliad penodol megis y sector gwirfoddol, llywodraeth leol, ymchwil gymdeithasol, gwaith ieuenctid, gwaith cymdeithasol neu addysgu ffurfiol.
2. Profiad o gyflawni prosiectau ymchwil ac ymgynghoriadau gwreiddiol, lefel uchel yn unigol ac ar y cyd, gan ddangos dealltwriaeth o ddulliau ymchwil ansoddol a meintiol – yn benodol ddulliau addas ar gyfer ymgysylltu â phlant a phobl ifanc a'u cyfranogiad, moeseg a chyfle cyfartal.
3. Profiad o gasglu data, ei ddadansoddi a dod i gasgliadau perthnasol, paratoi ac ysgrifennu papurau ac adroddiadau o safon uchel i weithwyr proffesiynol a phobl ifanc.
4. Profiad a dealltwriaeth sylweddol o bolisi, ymchwil ac ymarfer mewn perthynas â chyfranogiad plant a phobl ifanc ar draws y Deyrnas Unedig, ynghyd â gallu i arddangos ymrwymiad i werthoedd ac egwyddorion CCUHP a phenderfyniad i hybu ei weithrediad yn effeithiol, ar sail gwybodaeth am faterion plant a phobl ifanc cyfredol yng Nghymru. Gwybodaeth a dealltwriaeth am Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) a'r gallu i weithio o bersbectif hawliau plant.
5. Profiad o waith amlddisgyblaeth, yn cynnwys y sectorau statudol a gwirfoddol.
6. Gallu i weithio'n greadigol ar eich menter eich hun ac fel rhan o dîm, oddi mewn i ganllawiau cytunedig, gyda sgiliau trefnu da, a'r gallu i gynllunio a blaenoriaethu gwaith er mwyn cadw at derfynau amser.
7. Gallu profedig i gyfathrebu'n effeithiol â phlant a phobl ifanc, sefydliadau a gweithwyr proffesiynol, unigolion a'r cyfryngau, gan ddefnyddio ystod o sgiliau llafar, ysgrifenedig a sgiliau cyflwyno eraill.
8. Profiad o drefnu cyfarfodydd, deall deinameg grwpiau, cadw at derfynau amser a symud materion ymlaen i'w cyflawni.
9. Gallu i ddangos ymwybyddiaeth o gyfle cyfartal ac arfer gwrth-hiliol, a bod yn sensitif iddyn nhw.

Gofynion Allweddol – Dymunol

1. Cymhwyster ôl-raddedig mewn maes perthnasol, megis y gwyddorau cymdeithasol, datblygiad ieuenctid a chymuned, addysg.
2. Profiad o reoli prosiectau neu ddarparu hyfforddiant.
3. Hyfedredd wrth ddatblygu a chynnal cronfeydd data.
4. Profiad o ddatblygu ar y we.
5. Gallu i gyfathrebu ar lafar ac yn ysgrifenedig yn Gymraeg.

Gwybodaeth Gefndir

Plant yng Nghymru yw'r corff trosfwaol cenedlaethol ar gyfer sefydliadau ac unigolion sy'n gweithio gyda phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd yng Nghymru. Sefydlwyd y corff ym mis Chwefror 1992 yn elusen gofrestredig. Rydyn ni'n gorff o aelodau, ac mae'r aelodau hynny'n dod o'r trydydd sector, y sector statudol a'r sector annibynnol.

Gyda'n gilydd rydyn ni'n:

- Cyfrannu at wireddu Confensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn yng Nghymru
- Brwydro dros wasanaethau cynaliadwy o safon a chyfran deg i bob plentyn a pherson ifanc
- Sicrhau sylw a thriniaeth arbennig ar gyfer plant mewn angen a'r rhai sydd ar y cyrion
- Sicrhau llais i blant a phobl ifanc

Mae Plant yng Nghymru yn cynnal nifer o weithgareddau i gyflawni'r nodau hyn, gan gynnwys:

- Trefnu cynadleddau a seminarau
- Darparu Hyfforddiant
- Cefnogi a datblygu rhwydweithiau a fforymau cryf
- Cynhyrchu a lledaenu gwybodaeth
- Cynrychioli'r aelodau ac ymgynghori â nhw
- Ymchwil
- Gwaith uniongyrchol gyda phlant a phobl ifanc trwy ein prosiect Cymru Ifanc

Mae Plant yng Nghymru yn gweithio mewn partneriaeth â'r cyrff cyfatebol yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon, ac mae ganddo gysylltiadau cryf yn Ewrop ac yn rhyngwladol.

Fel sefydliad o aelodau rydyn ni'n sefydlu rhwydweithiau yng Nghymru er mwyn cynrychioli barn yr etholaeth, canfod pryderon cyffredin ac annog gweithgaredd amlddisgyblaeth. Gall aelodau fod yn rhai corfforaethol neu'n unigolion, a deuant o ystod eang o ddiddordebau, megis iechyd, addysg, cyrff gwirfoddol, gwasanaethau cymdeithasol neu grwpiau hunangymorth.

Ariannir ein gwaith trwy grantiau gan Lywodraeth Cymru, eraill sy'n rhoi grantiau, ac incwm rydyn ni'n ei gynhyrchu ein hunain.

Mae Bwrdd o Ymddiriedolwyr yn llywodraethu gwaith y sefydliad

<http://www.childreninwales.org.uk/>